



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

15 Tachwedd 2018

9:00 am – 12:00 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol:	Y Cynghorydd Gareth Roberts (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Rob Smith, Susie Lunt (ar ran Neil Ayling), Caroline Turner, Nicola Stubbins, y Cynghorydd Joan Lowe, Mary Wimbury, Lyn Meadows (ar ran Marian Wyn Jones), Neill Anderson, Sally Baxter, Charlotte Walker, y Cynghorydd Liz Roberts, Jenny Williams, Judith Greenhalgh, Peter Williams, Jennie Lewis, Ffion Johnstone, Teresa Owen, Wendy Jones a Kevin Roberts.
Ymddiheuriadau:	Neil Ayling, y Cynghorydd Bobby Feeley, y Cynghorydd Llinos Medi Huws, y Cynghorydd Christine Jones, Richard Weigh, Bethan Jones, Marian Wyn Jones, Chris Stockport, Clare Budden ac Andrew Long.
Hefyd yn Bresennol:	Bu Fflur Jones yn bresennol ar gyfer eitem 8 Bu Heidi Roberts yn bresennol ar gyfer eitem 10 Bu Donna Hutton yn bresennol ar gyfer eitem 11

Eitem		Camau gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd GR bawb i'r cyfarfod, ac yn enwedig felly'r Aelodau newydd o'r Bwrdd; Cyfarwyddwyr Ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sef Ffion Johnstone (Gorllewin), Bethan Jones (Canol) a Rob Smith (Dwyrain); a Judith Greenhalgh yn cynrychioli'r Prif Swyddogion Gweithredol.	
2.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a chamau gweithredu.</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref fel rhai cywir. Materion a gwblhawyd: <ul style="list-style-type: none">• Anfonwyd llythyrau o ddiolch at VW a DS.• Cwblhawyd y templed Presgripsiynu Cymdeithasol a'i anfon i Lywodraeth Cymru.• Cyflwynwyd y cynnig plant i Lywodraeth Cymru.	

	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhawyd yr ymgynghoriad ynghylch Rhan 9 a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru. • Roedd SB wedi cysylltu ag AJ (WAST) ynglŷn â chynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Dementia. • Aeth carfan dda o gydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol gogledd Cymru i'r digwyddiad Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar 07.11.2018. <p>Materion heb eu cwblhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ITJ i anfon copi o'r Ddogfen Gynnig ymlaen. • Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i ysgrifennu i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r setliad ariannol i Awdurdodau Lleol. • Byddai TO yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod mis Tachwedd ynglŷn â'r swydd Ymarferydd Iechyd Ymgynghorol Perthynol Cymru Gyfan ar gyfer Dementia. • Byddai AH yn anfon siart cysylltiadau o fewn y Bwrdd Iechyd ymlaen – roedd eitem 3 (13.07.2018) heb ei gwblhau. <p>Wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r Lluoedd Arfog yn y cyfarfod blaenorol, dywedodd y Cyngorydd LR (Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yng Ngogledd Cymru) fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu swyddi'r ddau Swyddog Cyswllt Gogledd Cymru am ddwy flynedd arall.</p>	<p>RW i fynd ar drywydd hwn GR i weithredu</p> <p>Rhaglen mis Tachwedd RW i fynd ar drywydd hwn</p>
<p>3.</p>	<p><u>Cymru Iachach – Cynnig i Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol</u> Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan SB ynglŷn â'r cynllun diwygiedig i Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol. Roedd y cynnig hefyd wedi'i ddisbarthu ymhlith yr aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth er sylwadau. Byddai'n rhaid sicrhau bod y cais i'r Gronfa Drawsnewid yn un cadarn a bod modd ei gyflawni, a'i gyflwyno'n ddiymdroi wedi'i gymeradwyo fel y câi ei ystyried yn fuan.</p> <p>Câi'r cais terfynol ei gynnig yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ar 30.11.2018, a byddai'n ymddangos ar raglen cyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth fis Rhagfyr.</p> <p>Diolchodd GR i SB, AJ a'u cydweithwyr am y gwaith ychwanegol.</p>	<p>Rhaglen mis Rhagfyr</p>
<p>4.</p>	<p><u>Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer 2019/22</u> Soniodd SB am gynnydd y gwaith i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019/22, gan ofyn am sylwadau er mwyn sicrhau fod y broses yn cyd-fynd i raddau helaeth â rhaglen waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Roedd y fframwaith yn canolbwyntio ar sicrhau Cymru Iachach, y Pedwar Nod a'r deg egwyddor dylunio er mwyn rhoi ffurf i gynlluniau'r Bwrdd Iechyd. Roedd gan y Bwrdd Partneriaeth ran bwysig i'w</p>	<p>'Beth sy'n Bwysig' ar</p>

	<p>chwarae wrth ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd, datblygu gwasanaethau integredig a dulliau di-dor o ddarparu gofal.</p> <p>Pwysleisiodd ME mor bwysig oedd cynnwys pob partner o'r cychwyn cyntaf wrth drafod y cynlluniau. Cwblheid y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig erbyn mis Ionawr 2019. Awgrymwyd y byddai angen cynllun gweithredu hefyd. Byddai MWJ yn llunio cynnig erbyn cyfarfod mis Ionawr ynglŷn â threfnu sgwrs 'beth sy'n bwysig' i aelodau'r Bwrdd.</p>	<p>raglen mis Ionawr – MWJ</p>
<p>5.</p>	<p><u>Adroddiad ar y Strategaeth Gofalwyr</u></p> <p>Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan ME ynglŷn â'r Adroddiad ar y Strategaeth Gofalwyr, a luniwyd gan fod y maes yn flaenoriaeth i'r Bwrdd, ac mewn ymateb i argymhelliad yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.</p> <p>Bu ME, BJE a FfJ yn arwain y ffrwd waith hon, gan ymrwymo i gynnwys gofalwyr a darparwyr yn helaeth wrth ddatblygu'r strategaeth.</p> <p>Roedd Andrew Cozens wedi hwyluso nifer o weithdai, a rhoddwyd cydnabyddiaeth hefyd i Sarah Bartlett a Hawis Jones am eu gwaith wrth dynnu'r strategaeth at ei gilydd.</p> <p>Roedd y strategaeth yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau personol ar gyfer pob gofalwr a phawb sy'n derbyn gofal yn y rhanbarth. Eid ati yn y ffordd orau bosib i fodloni anghenion gofalwyr fel unigolion, gan gynnwys anghenion iaith, sicrhau y rhoddir y un sylw i ofalwyr ag i'r sawl sy'n derbyn gofal ganddynt, a bod pob sgwrs 'beth sy'n bwysig' gyda'r staff yn cynnwys sôn am beth sy'n bwysig i ofalwyr yn ogystal â'r sawl sy'n derbyn gofal, gan sicrhau gwasanaeth cyson sy'n rhoi gwerth da am arian, Cadw at arferion gorau ac osgoi dyblygu gwaith.</p> <p>Byddai cyflawni'r camau gweithredu a gyflwynwyd yn cynnwys cyfarfodydd rhanbarthol ar gyfer gofalwyr, swyddogion arweiniol a darparwyr er mwyn rhoi gorolwg o'r gwaith oedd yn digwydd fel y gallai'r partneriaid fesur eu perfformiad yn ôl yr egwyddorion.</p> <p>Dywedodd FfJ y penderfynodd y rhanbarth fwrw ymlaen â datblygu ei fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant cyn i'r gwaith ddechrau yn genedlaethol, ac ni fyddai'r gwaith hwnnw'n debygol o gael ei gwblhau cyn hir. Roedd gweithdy wedi'i drefnu yn y flwyddyn newydd a fyddai'n canolbwyntio ar ddull gweithredu Triongl Gofal, gyda'r nod o sefydlu fframwaith rhanbarthol cytûn erbyn diwedd mis Mawrth 2019.</p> <p>Dywedodd JL, er nad oedd hi wedi cyfrannu at y strategaeth, ei bod o'r farn bod y strategaeth yn cyfleu llais y gofalwr yn dda iawn.</p> <p>Rhoddodd JG glod i'r gwaith a wnaethpwyd ar y strategaeth, a dymunai sicrhau y datblygid dulliau o fesur canlyniadau, a</p>	<p>Gwahodd PW a JL i'r gweithdy Gofalwyr a chyfarfodydd y grŵp Gofalwyr yn y dyfodol.</p>

	<p>phwysleisiodd eto fod angen monitro hynny er mwyn asesu'r gwahaniaeth a wnaethpwyd i'r gofawyr.</p> <p>Holodd TO ynglŷn â chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r strategaeth, yn enwedig felly o ran y thema lles a'r gwaith oedd yn mynd rhagddo gyda'r Gronfa Drawsnewid ar gyfer Plant.</p> <p>Cadarnhawyd y bu grŵp rhanbarthol o ofalwyr ifanc yn rhan o'r gwaith.</p> <p>Cadarnhaodd FJ y cafwyd trafodaethau a bod pryderon wedi codi ynglŷn â phontio. Byddai'r Strategaeth Gofalwyr hefyd yn cyd-blethu ac yn dylanwadu ar ffrydiau gwaith eraill wrth i'r holl staff ddilyn y drefn newydd.</p> <p>Cytunodd aelodau'r Bwrdd i gymeradwyo'r Strategaeth Gofalwyr. Byddai pob partner yn mynd â'r mater drwy eu prosesau llywodraethu/gwleidyddol mewnol yn ôl y gofyn.</p>	<p>TO – i drafod ymhellach â BJ, BJE a FJ.</p>
<p>6.</p>	<p><u>Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gomisiynu</u></p> <p>Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gwaith y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol. Roedd y Bwrdd o blaid datblygu dulliau comisiynu strategol a'u rhoi ar waith gydol y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion a phlant.</p> <p>Soniodd ME am y cynnydd a wnaethpwyd gyda phob canlyniad yn rhaglen waith 2018/19; llwyddodd rhai gweithgareddau yn fwy nag eraill. Un o'r pryderon a grybwyllwyd oedd moddion (yr elfen hyfforddiant), a bu'n anodd symud y mater yn ei flaen. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gadarnhau pwy fyddai'n gyfrifol am gomisiynu'r hyfforddiant. Roedd pryder hefyd yn parhau ynglŷn â gwaith ar gyfer fframwaith cyllido'r Cyngor Iechyd Cymuned. Er nad oedd ond dau aelod o staff yn y Tîm Comisiynu Rhanbarthol, gwnaethpwyd cryn gynnydd â'r gwaith, ac roedd dyled y rhanbarth yn fawr i'r tîm.</p> <p>Hysbysodd ME y Bwrdd y byddai'r cytundeb partneriaeth cyfredol ar gyfer Comisiynu'n dod i ben fis Mawrth 2019.</p> <p>Byddai'r partneriaid yn trafod eu blaenoriaethau ar gyfer rhaglen waith y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn y cyfarfod nesaf, a gofynnwyd i bob partner drafod eu gofynion eu hunain yn fewnol fel y gellid ystyried yr holl safbwyntiau a chwblhau rhaglen ranbarthol erbyn Ionawr/Chwefror 2019. Cwblheid y gwaith yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a Chymru Iachach.</p> <p>Holodd NS pryd allai'r partneriaid ddisgwyl gweld y cytundeb. Cytunodd BJE i fynd ar drywydd hyn ag uned gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych.</p> <p>Gofynnodd MW hefyd am i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol roi sylw i gynnaladwyedd y farchnad ofal, yn enwedig gan ystyried y byddai'n orfodol cofrestru'r gweithlu o fis Ebrill 2020 ymlaen.</p>	

	<p>Cadarnhaodd ME y byddai MB eisoes yn ymwybodol o hynny.</p> <p>Nododd aelodau'r Bwrdd yr adroddiad ar y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglen waith 2018/19, a'r adolygiad o'r Cytundeb Partneriaeth.</p>	
7.	<p><u>Prif seminar Fforwm Polisi Cymru: Rhoi Cymru lachach ar waith - integreiddio'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru - Caerdydd 15.01.2019</u></p> <p>Wedi sôn am Gymru lachach, aeth y cadeirydd ymlaen i grybwyll gwahoddiad a dderbyniwyd i siarad yn y gynhadledd uchod, a fyddai'n gyfle i'r rhanddeiliaid allweddol fyfyrion ynghylch y cynigion a thrafod y blaenoriaethau o ran eu gweithredu, gan gynnwys sut i fynd i'r afael â materion ymarferol. Yn anffodus ni allai'r Cynghorydd GR fynd i'r digwyddiad, a gofynnodd a fedrai rhywun arall fynd i gynrychioli'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Cytunodd TO a FfJ i drafod hynny â Chris Stockport.</p>	TO i roi gwybod i BJE beth fydd canlyniad y sgwrs
8.	<p><u>Archwilio'r Gronfa Gofal Integredig</u></p> <p>Daeth Fflur Jones i'r cyfarfod i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chanfyddiadau'r archwiliad diweddar o'r Gronfa Gofal Integredig. Diolchodd Fflur i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad, a rhoddodd fraslun o'r cyflwyniad ynglŷn â'r Gronfa, a oedd yn ymdrin â'r canlyniadau mewn ardaloedd lleol penodol. Cynhaliwyd yr archwiliad i weld sut câi'r Gronfa ei rheoli ar lefel ranbarthol a lleol.</p> <p>Roedd y cyflwyniad yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o lywodraethiant a pholisi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gweithio mewn partneriaeth, arolwg aelodau a chysylltiadau â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cyllid a dosrannu, effaith, dysgu a themâu gwella.</p> <p>Nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod aelodau'r Bwrdd Partneriaeth yn ffyddiog bod y bwrdd yn hwyluso gwaith da mewn partneriaeth. • Roedd y Bwrdd Partneriaeth wedi cyfethol aelodau ychwanegol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a WAST. • Oherwydd maint y Bwrdd roedd y trafodaethau'n heriol weithiau, ac roedd rhai o'r aelodau'n ei chael yn anodd gwneud cyfraniad gwerth chweil. • Roedd rheoli risg yn dal yn her ar gyfer cynlluniau prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig. • Collwyd cyfleoedd yn y rhanbarth drwy ddilyn y rhestr wirio diwydrwydd dyladwy, a chollwyd cyfleoedd i roi cynnig ar ddulliau newydd. • Roedd yno wahanol ddulliau o reoli llithriant yn y Gronfa mewn gwahanol rannau o gogledd Cymru. 	

- Roedd pethau wedi gwella o ran casglu data ar berfformiad prosiectau a rhannu arferion da.

Soniodd CT bod yr archwiliad yn dangos gwerth gweithio'n is-ranbarthol, a bod y trydydd sector/gofalwyr/unigolion hefyd yn cael eu cynrychioli.

Dywedodd NS fod hwn yn adroddiad clir a defnyddiol ac y gellid defnyddio'r canlyniadau'n sail ar gyfer dysgu i'r dyfodol.

Gan gyfeirio at y themâu gwella a gynigiwyd ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth, holodd WJ a oedd yno unrhyw ganlyniadau gwella ar gyfer Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r archwiliad.

Cadarnhaodd FfJ fod ymateb i Lywodraeth Cymru'n cael ei ddrafftio. Cyflwynid adroddiad cenedlaethol i Lywodraeth Cymru i ddangos darlun lefel uchel o'r canlyniadau ledled Cymru a'r holl wahanol ddulliau a ddefnyddiwyd. Cyhoeddid yr adroddiad ym mis Ionawr ac fe'i cyflwynid yn genedlaethol drwy law pob swyddog arweiniol y Gronfa Gofal Integredig.

Mynegodd CT bryder ynglŷn â diogelu cyllidebau craidd awdurdodau lleol ar gyfer gwaith beunyddiol, yn enwedig gan fod disgwyl i rai cynlluniau peilot y rhoddwyd grantiau iddynt ddod yn wasanaethau prif ffrwd yn hwyr neu'n hwyrach. Soniodd CT hefyd am drafferthion o ran contractau'r gweithlu gan fod y prosiectau'n rhai tymor byr a'u swyddi'n rhai parhaol.

Ategodd MW y pryderon gan sôn am y trafferthion wrth gyflogi staff yn y sector annibynnol gyda'r grantiau, a'r ffaith nad oedd modd cynnig contractau sicr.

Holodd TO faint yn union o aelodau gogledd Cymru a fu'n rhan o'r arolwg.

Cadarnhaodd mai 30% a gymerodd ran yng ngogledd Cymru, o gymharu â 60% ledled Cymru.

Soniodd BJE am weithdy Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Gofal Integredig yn Wrecsam ar 22.11.2018. Roedd pob swyddog arweiniol lleol ar gyfer y Gronfa wedi cael gwahoddiad. Y bwriad oedd y byddai pob rhanbarth yn ymateb i ganllawiau'r Gronfa ac yn rhoi eu barn am sut roedd pethau'n gweithio, fel y gallai Llywodraeth Cymru ystyried y canllawiau o'r newydd a chyhoeddi rhai diwygiedig ddechrau 2019. Dywedodd BJE wrth y Bwrdd na fyddai Llywodraeth Cymru bellach yn argymhell bod y Gweinidog yn cymeradwyo ein cynllun cyfalaf ar gyfer y Gronfa. . Soniodd BJE hefyd bod y ddau brosiect Dementia arall wedi'u cymeradwyo drwy'r Gronfa.

Diolchodd GR i Fflur am ddod i'r cyfarfod, a daeth â'r drafodaeth i ben drwy ddweud mor galonogol oedd bod a wnelo'r themâu gwella â

	<p>gwella llywodraethu yn hytrach na pherfformiad, a bod rhai o'r themâu eisoes wedi'u cwblhau.</p>	
9.	<p><u>Adolygiad Llywodraethu Rhanbarth Gogledd Cymru – Adroddiad Terfynol</u> Esboniodd BJE y gohiriwyd yr adroddiad hwn yn y cyfarfod blaenorol.</p> <p>Soniodd JG am drafodaeth a gafodd Bwrdd Dysgu Rhanbarthol Gogledd Cymru, lle soniwyd y dylai'r Bwrdd Partneriaeth gael yr un sylw â chais Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer Bargaen Twf. Etholwyd JG i gynrychioli'r Prif Swyddogion Gweithredol ar y Bwrdd Partneriaeth fel y gallai gynorthwyo â rhoi trosolwg, cyfeiriad a chefnogaeth.</p> <p>Roedd JG yn croesawu'r adroddiad a oedd yn fuddiol o ran gosod y cyfeiriad. Roedd y Bwrdd yn gweithio o fewn cyfyngiadau Llywodraeth Cymru, ac yn ffyddiog y byddai'r adroddiad yn ddechrau da i'r holl bartneriaid.</p> <p>Croesawodd GR yr adroddiad hefyd, gan sôn ei fod yn glir, yn gryno ac yn annog partneriaid i gydweithio'n effeithiol ledled y rhanbarth.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.</p>	
10.	<p><u>Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd</u> Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth gan Heidi Roberts ar ran Clare Field.</p> <p>Roedd Heidi Roberts yn gyfreithiwr â chefnidir mewn gofal plant, ac roedd hi wedi adolygu'r gwasanaeth yn ddiweddar ar ran y Bwrdd Partneriaeth. Aethpwyd drwy nifer o gamau wrth lunio'r adroddiad: adolygu'r gofynion deddfwriaethol, dadansoddi pob rhanbarth i ganfod a chynnal cronfeydd ar y cyd, a chynnal adolygiad trwyadl o'r gofynion cyfreithiol cyfredol oedd yn sail ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Integredig Gwybodaeth i Deuluoedd.</p> <p>Bu trefniadau partneriaeth is-ranbarthol ar waith ers tro rhwng Gwynedd a Môn, a Sir y Fflint a Wrecsam, ac roedd gan Sir Ddinbych a Chonwy wasanaethau ar wahân o fewn y gwasanaethau ehangach i blant. Soniodd HR am y cyfarfodydd adeiladol a gafwyd â holl swyddogion arweiniol y gwasanaeth yn yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd lechyd, lle cadarnhawyd fod y gwasanaethau cyfredol yn bodloni'r gofynion yn y Ddeddf ac yn cyflawni'r canlyniadau iawn ar gyfer pobl.</p> <p>Roedd ME yn cytuno â bwriad y Gwasanaeth, ond dymunai dynnu sylw at y ffaith bod gwaith yn mynd rhagddo yn y Gorllewin i adolygu'r gwasanaeth, gan fod yno ddyblygu gwaith gyda gwasanaeth tebyg. Ychwanegodd CT fod y tîm is-ranbarthol yn gweithio'n dda, ac y byddai pethau'n gwella eto wedi cael staff amlddisgyblaethol i lenwi swyddi gwag. Byddai'n rhaid bod yn hyblyg wrth ymdrin â rhai</p>	

	<p>materion, a meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd i fedru gweithio ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.</p> <p>Holodd TO ynglŷn â'r cytundeb partneriaeth drafft, a gofynnol am gael mwy o wybodaeth. Cytunodd BJE i anfon y cytundeb at TO er sylwadau.</p> <p>Cadarnhaodd BJE mai'r cam nesaf wedi cymeradwyo'r adroddiad fyddai i HR gwblhau'r cytundeb partneriaeth a'i anfon at bob partner i'w lofnodi. Gofynnodd TO am anfon y cytundeb at ei sylw hi.</p> <p>Cadarnhaodd BJE hefyd y byddai'r cytundeb ynglŷn â chronfeydd ar y cyd yn aros fel yr oedd a bod Llywodraeth Cymru'n gwybod hynny.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad – gan gadarnhau fod y Gwasanaeth yn bodloni gofynion y ddeddf a nodi'r gwaith a wnaethpwyd a'r crynodeb o'r canlyniadau.</p>	<p>Anfon drafft o'r Cytundeb Partneriaeth at TO TO i roi ymateb</p> <p>Cytundeb Partneriaeth at TO</p>
	<p><u>Adroddiad Arbenigol: Cyflymu integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru</u></p> <p>Soniodd Donna Hutton, Rheolwr Rhanbarthol Unsain Cymru am yr adroddiad ar bwrpas cyffredin lle'r oedd Unsain Cymru'n galw am gyflymu integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.</p> <p>Dywedodd DH fod Unsain wedi comisiynu'r adroddiad yn sgil cwynion gan weithwyr gofal ac iechyd bod cael system mor ddi-drefn yn annheg i'r bobl hynny oedd yn derbyn gofal, ac ar yr un pryd prin oedd unrhyw fuddsoddi mewn gweithwyr gofal. Un o'r pryderon oedd bod gwahanol gyfraddau cyflog gan yr awdurdodau lleol ac iechyd ar gyfer staff oedd yn gwneud yr un gwaith.</p> <p>Amlygodd MW y byddai Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cofrestru cyn hir, a bod yno bryderon o ran sefydlogrwydd y gweithlu.</p> <p>Holodd SB a oedd Unsain yn gwybod am Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru, ac awgrymodd y gellid cynnwys DH yn y cyfarfodydd hynny.</p> <p>Atebodd DH drwy ddweud bod Unsain yn gwybod am sefydlogrwydd y farchnad, a'r her fwyaf felly oedd ymdrechu'n galed i integreiddio, gan y byddai hynny yn y pen draw yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol a byddai'r staff yn elwa hefyd.</p>	<p>Anfon manylion cyswllt at DH</p> <p>Anfon copi o'r adroddiad at bob aelod o'r Bwrdd</p>
<p>12</p>	<p><u>Canlyniad o ran cael aelod o'r Trydydd Sector ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u></p> <p>Soniodd TO am y datganiad o ddiddordeb o'r Trydydd Sector yn ddiweddar a'r cyfarfod a gafodd y panel cymheiriaid. Aelodau'r panel oedd Teresa Owen, Jenny Williams a Charlotte Walton. Bu'r Panel yn cyfweld pob ymgeisydd, gan ddod i'r casgliad y byddai'n werth penodi pob un ohonynt.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i dderbyn yr argymhelliad yn yr adroddiad, a gofyn am gael gwybod y canlyniad.</p>	

	<p>Yn ogystal, roedd y panel cymheiriaid wedi gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ystyried:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Sut mae Cyngor y Gwasanaethau Gwirfoddol yn cefnogi'r cynrychiolydd o'r Trydydd Sector fel y gall geisio barn y sector ehangach ynglŷn â materion sydd a wnelont â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. 2. P'un a fyddai'n briodol newid hyd tymor yr aelod o'r Trydydd Sector, neu ddechrau penodi i'r Bwrdd ar ddyddiadau ar wahân fel y gellid elwa ar ddysgu gan aelodau newydd. 3. A ddylai'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gynnal gwerthusiad blynyddol â phob aelod o'r Bwrdd, ac a ddylai hynny gynnwys yr holl aelodau nteu'r rhai hynny sydd wedi'u cyfethol yn unig. <p>Dywedodd ME fod yno fforymau lleol yn y trydydd sector, lle'r oedd partneriaid allweddol yn dod ynghyd i rannu gwybodaeth a thrafod sut i weithio mewn partneriaeth. Os oedd trefniadau tebyg ar waith mewn ardaloedd eraill, gellid bwydo'r holl wybodaeth yn ôl i'r fforymau lleol, gan osgoi sefydlu grwpiau o'r newydd a dyblygu gwaith.</p> <p>Dywedodd WJ fod Conwy'n ystyried ailsefydlu'r hen gyfarfodydd compact, ac wedi gwahodd aelodau i weithdy er mwyn adolygu'r mater.</p> <p>Dywedodd CW y byddai'r gwerthusiadau a awgrymwyd yn efelychu trefn y bwrdd diogelu, lle'r oedd partneriaid yn cyflwyno gwerthusiadau blynyddol a oedd yn cynnwys eu cyfranogiad, anawsterau a heriau. Byddai hyn yn cyfoethogi'r Bwrdd a hefyd yn bwydo i mewn i'r adroddiad blynyddol.</p> <p>Awgrymwyd y byddai gweithdy ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn fuddiol, a gallai hefyd fod yn rhan o'r sesiwn Beth sy'n Bwysig yr oedd y Bwrdd eisoes wedi'i drafod.</p>	<p>Cysylltu â'r ymgeiswyr yn y Trydydd Sector</p> <p>WJ i adrodd yn ôl ym mis Rhagfyr</p>
<p>13.</p>	<p><u>Er gwybodaeth:</u> Soniodd BJE am lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Ifan Evans, Llywodraeth Cymru, yn cymeradwyo'r cais i'r Gronfa Drawsnewid: Gogledd Cymru ar y Cyd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu, gan gadarnhau bod y Llywodraeth yn barod i gefnogi'r cynnig mewn egwyddor. Anfonid llythyr cynnig grant yn fuan a fyddai'n cynnwys yr holl amodau a thelerau.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu'r dull cyffredinol a gynigiwyd yn y cais 'Gyda'n Gilydd dros lechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru', ac wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y llunnid dull gweithredu penodol ar gyfer y cynnig, a pha weithgarwch fyddai'n cael ei gynllunio.</p> <p>Hysbysodd BJE yr aelodau hefyd o'r ymgynghoriad ynglŷn â Chlymu Cymunedau a lansiodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddar. Cynhelid digwyddiad ymgysylltu yn Wrecsam ar 19.11.2019 i gyd-fynd â'r</p>	

	ymgyngoriad, a gofynnwyd i'r aelodau gofrestru â Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol erbyn 16.11.2019.	
UNRHYW FATER ARALL	<p><u>Canolfan Wybodaeth – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</u> Dywedodd KR y cafwyd trafodaeth am ddatblygu canolfan wybodaeth ar y cyd mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Cydweithio'r Gwasanaethau Brys, a holodd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth a oedd unrhyw waith eisoes yn mynd rhagddo rhwng yr awdurdodau lleol ac iechyd o ran casglu gwybodaeth am bobl oedd yn galw'n aml. Roedd yn gofyn am yr wybodaeth er mwyn osgoi dyblygu unrhyw waith oedd eisoes wedi'i wneud.</p> <p>Cytunodd y Cyfarwyddwyr y dylid rhoi'r mater ar raglen y Grŵp Arweinyddiaeth a'i drafod ymhellach.</p> <p>Soniodd WJ fod Cynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd wedi gweithio â phobl oedd yn galw'n aml am wasanaeth ac wedi cyflawni canlyniadau da ledled y rhanbarth.</p>	<p>Gwahodd Helen MacArthur i gyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth fis Ionawr</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 13 Rhagfyr 2018 9:00 am – 12:30 pm</p>	